4.17

# DIENYDDIAD

# ROBERT COE,

AM LOFRUDDIO

## JOHN DAVIES,

YN Y COED, GER MOUNTAIN ASH,
GER ABERDAR.

*Cymerodd y dienyddiad le yn Abertawy, Ebrill* 12, 1866.

---

Chwi Gymry doeth a gweddaidd
  Rai mwynaidd, cydneshewch,
I roddi clust wrandawiad
  I'r ganiad genyf gewch ;
Rhyw rybudd ar ol rhybudd
  Sydd beunydd i ni 'n bod,
I ochel ffyrdd y gelyn,
  A phob annuwiol nod.

Mewn coed gerllaw i'r dyffryn,
  Y bu rhyw greulon graith,
Trwy Mountain Ash, er galar,
  Fe 'i cofir amser maith ;
A'i hyned dad a ffryndiau,
  A phawb â'i bronau 'n brudd,

X 20522034 6

A'u dagrau i'r llawr yn llifo,
Wrth gofio am y dydd.

Robert Coe oedd enw 'r llofrudd
A wnaeth y greulon graith,
Llofruddiodd ef John Davies,
Yn ol iddo dd'od o'r gwaith;
Y fwyall a gymerodd,
Ac a'i cuddiodd yn y fan.
I wneud y weithred greulon,
O'r arswyd ddaeth i'w ran.

I'r coed efe a'i tynodd
O'i wirfodd yn y fan,
Trwy waith y gelyn ciaidd,
Oer ddiwedd ddaeth i'w ran;
Y fwyall a gymerodd,
A dywedodd yno 'n awr,
'R wy 'n penderfynu 'ch mwrddro,
A'ch gwaed gaiff lywio 'r llawr.

Pryd hyn efe a'i lladdodd
O'i wirfodd yn y lle,
A rhedai y llofrudd creulon,
Yn union tua thre;
Mewn pedwar mis o amser,
O fewn y coed fe 'i caed,
A'i ben i ffwrdd oddiwrtho,
Yn gorwedd yn ei waed.

Y llofrudd cas anrasol,
Trwy waith y diafol du,
A aeth a'r fwyall ganddo
Yn ol ei lofruddio ef,
Ac yno fe 'i gadawodd,
Mewn gwaed, yn llynoedd llaith,

'N ol iddo ef yn sydyn,
  Rhoi terfyn ar ei daith.

Y llofrudd ga'dd ei gyrchu
  I garchar yno 'n awr,
A'i gadw mewn cadwynau
  O fewn y muriau mawr,
I aros dydd ei drial
  O fewn i'r *dungeon* du ;
Rhag gwneuthur y fath weithred,
  Duw mawr a'n cadwo ni.

Fe ddaeth y dydd i'w brofi,
  Yn awr yn ol y dre',
Ger bron y Judge a'r Jury,
  Yn mlaen fe 'i dygwyd e' :
'N ol iddynt holi 'r tystion
  Oedd yno i gyd, ar g'oedd,
Y Jury oll a farnent
  Yn wir mae euog oedd.

Y Barnwr godai 'i fynu
  I roi arno y ddedfryd ddwys,
Gan dd'weyd, parotowch i farw,
  Mae 'n beth o ddirfawr bwys :
Sef dioddef ar y grogbren
  Yn ol y gyfraith wiw,
Gweddiwch am drugaredd
  Yn daer, wrth orsedd Duw.

Dydd Mercher yn y boreu,
  Ebrill, ddeuddegfed dydd,
Darllenodd yr Offeiriad,
  Yn ol 'r arferiad sydd ;
Tuag wyth o'r gloch y boreu,
  I'r farn y cafodd dd'od,

I ddyoddef trwm farwolaeth,
Yn dair ar bymtheg oed.

'R oedd miloedd o drigolion,
Yn dystion yma 'n awr,
Yn gweled ei drosglwyddiad,
I'r trag'wyddoldeb mawr;
Peth sobr oedd ei weled
Yn myn'd o dir y byw,
A'i enaid a ehedodd,
I'r man lle mynodd Duw.

Wel, bellach, Gymry mwynion,
Trwy 'r de' a'r gogledd dir,
Boed rhywbeth i ni 'n rhybudd,
A rhodiwn bawb yn bur,
'Mofynwn Grist yn sylwedd,
A bydded hwn yn ben,
'N ol hyny ni gawn ganu
Hosannah byth. Amen.

ANN OWEN.



*E. Griffiths, Argraffydd, Abertawy.*

CARDIFF PUBLIC LIBRARIES